Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Cynllun Grant ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig



Ffotograff: Golygfa o Borthdinllaen, Pen Llŷn

# Cynnwys

Prif Negeseuon

Adran A: Cyflwyniad

Adran B: Y Cynllun Grant ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig – Cymhwysedd

Adran C: Egwyddorion a Meini Prawf Rheoli

Adran D: Gwneud cais am y Cynllun Grant ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig – Y Broses Ymgeisio

Adran E: Talu'r Grant

Adran F: Monitro Prosiectau

Adran G: Y Drefn Apelio

Adran H: Hysbysiad preifatrwydd – grantiau Llywodraeth Cymru

Atodiad 1

Atodiad 2

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52178, ISBN digidol 978-1-83715-836-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Prif Negeseuon

- Mae'r Cynllun Grant ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn agored i geisiadau gan yr holl Awdurdodau Rheoli yng Nghymru, ynghyd â sefydliadau â diddordeb a sefydliadau trydydd sector sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd a amlinellir yn y canllawiau hyn.
- Dylai ymgeiswyr chwilio am gyllid gan ffynonellau eraill cyn cyflwyno cais drwy'r cynllun hwn.
- Mae'r cynllun ar gyfer prosiectau refeniw, ac i fod yn gymwys mae'n **rhaid** iddynt sicrhau manteision neu welliannau i'r ffordd mae Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru yn cael ei reoli, neu wella dealltwriaeth o'r maes hwn.
- Mae'r grant yn darparu cymorth gwerth hyd at 100% o brosiectau refeniw sy'n gallu bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y canllawiau hyn.
- Yr uchafswm grant y gellir ei roi yw £40,000. Fel arfer, mae dyfarniadau grant o dan y cynllun hwn rhwng £20,000 a £30,000.
- Bydd ceisiadau sy'n gofyn am fwy na £40,000 yn cael eu hystried ond bydd angen iddynt ddangos gwerth am arian.
- **Rhaid i bob cais gynnwys y flwyddyn ariannol nesaf yn unig.**
- Gwahoddir ceisiadau yn ystod cyfnod 'galwad am gamau gweithredu' a fydd yn cael ei gynnal unwaith y flwyddyn. Y Grŵp Llywio ar Reoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig a fydd yn pennu'r amserlen.
- Bydd ceisiadau llwyddiannus yn cael eu cynnwys fel 'cam gweithredu' yn y Cynllun Gweithredu blynyddol ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig, a disgwylir iddynt ddarparu diweddariad ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol dilynol.
- Mae'r ffurflen gais wedi cael ei datblygu gan y Grŵp Llywio ar Reoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig, ac mae'n cyd-fynd â'r meini prawf a amlinellir yn Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig 2018–2023.
- Cynhelir gweithdy blynyddol i ddarparu arweiniad a chymorth i ymgeiswyr sydd â diddordeb.
- Mae Atodiad 1 ar ddiwedd y canllawiau hyn yn rhoi'r canllawiau sgorio unigol ar gyfer pob maen prawf.
- Mae dolen i'r Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn Atodiad 2 ar ddiwedd y canllawiau hyn, ynghyd ag astudiaethau achos o brosiectau blaenorol, i gynnig cymorth i ymgeiswyr sydd â diddordeb.



Ffotograff: Golygfa o Ynys Sgomer

## Adran A: Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn yn egluro'r Cynllun Grant ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig, ynghyd â'r mathau o brosiectau a allai fod yn gymwys ar gyfer cymorth grant.

### Y Cynllun Grant ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig

Mae'r Cynllun Grant ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn agored i geisiadau gan yr holl Awdurdodau Rheoli yng Nghymru, ynghyd â sefydliadau â diddordeb a sefydliadau trydydd sector.

Mae'r cynllun ar gyfer prosiectau refeniw, ac i fod yn gymwys mae'n rhaid iddynt sicrhau manteision neu welliannau i'r ffordd mae Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru yn cael ei reoli, neu wella dealltwriaeth o'r maes hwn. Nid ystyrir ceisiadau ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig y tu allan i Gymru.

Yr uchafswm grant y gellir ei ddyfarnu yw £40,000, ac mae ar gael i bartïon â'r diddordeb a amlinellir uchod sy'n gallu bodloni'r pum maen prawf a amlinellir isod:

- Bydd y prosiect yn gwella'r ffordd mae Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael eu rheol neu'n gwella dealltwriaeth o'r maes hwn.
- Mae'r prosiect ar lefel rhwydwaith yn ofodol.
- Mae'n cyd-fynd ag o leiaf **un** egwyddor rheoli.
- Mae'n dechnegol ymarferol.
- Mae'n dangos gwerth am arian.

**Dim ond** ceisiadau ar gyfer prosiectau sy'n para am y flwyddyn ariannol nesaf yn unig a fydd yn cael eu hystyried. Gellir derbyn camau gweithredu arfaethedig sy'n para am fwy nag un flwyddyn, ond nid oes sicrwydd y bydd cyllid ar gael ar gyfer y blynyddoedd dilynol.

### Enghreifftiau o brosiectau posibl

Mae atodiad ynghlwm wrth y nodyn cyfarwyddyd hwn sy'n amlinellu prosiectau blaenorol y mae eu crynodebau wedi'u cwblhau yn yr Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Mae astudiaethau achos hefyd wedi cael eu datblygu ar gyfer prosiectau y nodwyd eu bod yn dangos yr arferion gorau.

Mae angen i geisiadau ddangos sut y byddent yn gwella'r ffordd mae'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru yn cael ei reoli'n yn ei gyfanrwydd – fodd bynnag, ystyrir prosiectau peilot sydd â'r potensial i gael i gynyddu i lefel rhwydwaith.

Ystyrir ceisiadau a fydd yn fuddiol naill ai ar draws y rhwydwaith MPAau, neu sy'n canolbwyntio ar nodweddion a warchodir fel adar môr neu gynefinoedd morol.

Dylid hefyd ystyried sut y gallai ceisiadau wella cyflwr Ardaloedd Morol Gwarchodedig drwy eu rheoli'n well, ac yn ei dro helpu i ennill Statws Amgylcheddol Da.

### Ni fydd cyllid ar gael ar gyfer

- Eitemau unigol neu eitemau unigol o wariant cyfalaf. Fodd bynnag, gellir ystyried eitemau os ydynt yn cefnogi prosiect refeniw (ymchwil), e.e. offer gwyddonol ar gyfer gwaith arolygu.
- Grant dim ond i dalu costau aelod o staff cyfwerth ag amser llawn.
- Camau gweithredu sydd eisoes yn cael eu hariannu'n rhannol gan ffynhonnell arall, oni ellir dangos yn glir y byddai'r ddwy ffynhonnell gyllid ar gyfer dau brosiect a dau ganlyniad ar wahân.

Ar gyfer unrhyw eitemau cyfalaf a gynhwysir yn y cais, y busnes neu'r awdurdod rheoli fyddai'n gyfrifol am unrhyw drwyddedau ac unrhyw gostau a gwaith cynnal a chadw parhaus.

## Adran B: Y Cynllun Grant ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig – Cymhwysedd

### I fod yn gymwys rhaid bodloni'r meini prawf canlynol

Rydych yn Awdurdod Rheoli yng Nghymru (fel corff cynghori neu awdurdod lleol), sefydliad trydydd sector neu sefydliad arall sydd â diddordeb. Nid yw'r Cynllun Grant ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn defnyddio platfform ar-lein i reoli'r broses grant, felly nid oes angen cofrestru ymlaen llaw ar gyfer unrhyw gais o'r fath.

Mae Llywodraeth Cymru yn annog ceisiadau cydweithredol ar y cyd gan nifer o sefydliadau, a byddwn yn hapus i hwyluso hyn drwy ein gweithdai blynyddol.

### Trwyddedau Morol, caniatadau cynllunio, rheoliadau adeiladu, Caniatadau a Thrwyddedau Amgylcheddol]

Os bydd ymgeisydd yn bwriadu gosod neu ddefnyddio eitemau cyfalaf y mae angen, i bob pwrpas, drwydded a/neu gytundeb arnynt, fe'i cynghorir i ymgynghori â'r awdurdod trwyddedu perthnasol, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), ei Awdurdod Lleol (ALl) neu asiantaeth arall gan ei bod yn bosibl y bydd angen caniatâd i wneud elfennau o'r gwaith.

Rhaid i ymgeiswyr gael y caniatâd cynllunio sydd ei angen a chydymffurfio ag unrhyw ofynion statudol perthnasol eraill. Rhaid i ymgeiswyr sicrhau nad yw eu cynigion yn torri unrhyw is-ddeddfau, yn rhwystro hawliau tramwy, yn effeithio ar bibau nwy neu olew ac ati, a rhaid iddynt osgoi peri unrhyw lygredd neu ddifrod i'r amgylchedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn deall, mewn rhai achosion, na fydd modd i ymgeiswyr fod â'r rhain ar waith pan fyddant yn gwneud cais, felly, yn yr achos hwn, derbynnir ceisiadau cyn cael y cytundebau sydd eu hangen. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol nodi'r cytundebau hyn yn y cais a bydd yn ofynnol eu cael cyn i'r prosiect ddechrau. Os nad yw'r trwyddedau a'r cytundebau angenrheidiol ar waith erbyn y dyddiadau y cytunwyd arnynt yn y cais, fydd y dyfarniad grant yn cael ei dynnu'n ôl.

Ni thelir unrhyw grant nes bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn ac wedi cymeradwyo'r drwydded wreiddiol a/neu ddogfennau cymeradwyo'r cytundeb.

## Adran C: Egwyddorion a Meini Prawf Rheoli

Mae'r Cynllun Grant ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr fodloni o leiaf un o'r pum egwyddor rheoli a phob un o'r pum maen prawf isod.

Ni fydd y ceisiadau hynny sy'n bodloni un egwyddor rheoli yn unig yn cael eu trin yn llai ffafriol na cheisiadau sy'n bodloni nifer o egwyddorion, gan mai dim ond yr egwyddor sy'n ennill y sgôr uchaf a ystyrir.

At ddibenion y canllawiau hyn, cyfeirir at geisiadau fel 'camau gweithredu' Rhaid i'r camau gweithredu hyn gyd-fynd â'r egwyddorion a'r amcanion rheoli a amlinellir isod. Cynhwysir camau gweithredu llwyddiannus yng Nghynllun Gweithredu Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig ac Adroddiad Blynyddol y flwyddyn ddilynol.





Ffotograff: Morlo llwyd bach

## Egwyddorion Rheoli

### Blwch 1: Egwyddorion Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig

Egwyddor Rheoli 1: Cynllunio Strategol – Dylai'r gwaith rheoli gael ei arwain gan brosesau cynllunio strategol ar lefel sector ac ar lefel Cymru gyfan. Mae'n cefnogi defnyddio'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig mewn ffyrdd sy'n cadw, yn gwella ac yn cyfrannu at ecosystemau morol cadarn a llesiant ac yn sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.

*A yw'r cam gweithredu arfaethedig yn amlwg yn cynnwys Cymru gyfran ac yn cyfrannu at ecosystemau morol cadarn a llesiant ac yn sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli yn gynaliadwy?*

Egwyddor Rheoli 2: Rheoleiddio a datblygu prosesau cydsynio ac asesu – Mae prosesau rheoleiddio a phenderfyniadau cydsynio'n gyson ac yn gytbwys ar draws y rhwydwaith, ac yn ystyried mewn modd rhagweithiol gynnal neu wella (lle bo hynny'n bosibl/briodol) gyflwr y safleoedd a'r nodweddion perthnasol ar draws y rhwydwaith.

*A yw'r cam gweithredu arfaethedig yn gysylltiedig â rheoleiddio neu ddatblygu prosesau cydsynio neu asesu ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru?*

Egwyddor Rheoli 3: Cyngor a chanllawiau ar gyfer rheoli – Mae penderfyniadau a gweithrediadau rheoli'n cael eu gwneud ar sail cyngor a chanllawiau clir a chyson ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig, gan gynnwys eu hamcanion cadwraeth.


*A yw'r cam gweithredu arfaethedig yn ymwneud â chynhyrchu canllawiau i wella'r ffordd mae ein Hardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael eu rheoli?*

Egwyddor Rheoli 4: Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion a'r pwysau a'r bygythiadau sy'n effeithio arnynt, i lywio'r ffordd maent yn cael eu rheoli – Mae'r dull rheoli yn cael ei lywio gan asesiadau ffurfiol ac adrodd ar gyflwr nodweddion, safleoedd a'r rhwydwaith a'r pwysau cysylltiedig. Mae asesiadau ac adroddiadau'n cael eu llywio gan raglen dystiolaeth â blaenoriaethau (gan gynnwys monitro) sy'n gwella ein dealltwriaeth o'r berthynas rhwng pwysau a bygythiadau a chyflwr.

*A yw'r cam gweithredu arfaethedig yn gwella ein dealltwriaeth o'r pwysau a/neu'r bygythiadau sy'n effeithio ar ein Hardaloedd Morol Gwarchodedig?*

Egwyddor Rheoli 5: Rheoli ehangach – Rhoddir blaenoriaeth i'r gweithgareddau rheoli ar draws y rhwydwaith sydd fwyaf tebygol o wella ei gyflwr a diogelwch y ffordd mae'n cael ei reoli. Mae heriau rheoli cyffredin yn cael eu trafod ar y cyd ar draws y rhwydwaith.

*A fydd y cam gweithredu arfaethedig yn gwella'r ffordd mae'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru yn cael ei reoli ac felly ei gyflwr?*





Ffotograff: Cynefin morwellt

### Meini Prawf

1. Pa mor debygol yw hi y bydd y cam gweithredu'n gwella cyflwr y rhwydwaith, neu'n gwella ein dealltwriaeth o bwysau/bygythiadau neu'r ffordd maent yn cael eu rheoli
   a. Pa mor debygol yw hi y bydd y cam gweithredu'n gwella cyflwr y rhwydwaith, neu yn gwella ein dealltwriaeth o bwysau/bygythiadau neu'r ffordd maent yn cael eu rheoli.
   b. Pa mor debygol yw hi y bydd y cam gweithredu yn gwella ein dealltwriaeth o bwysau/bygythiadau neu'r ffordd maent yn cael eu rheoli.
2. Beth yw cyrhaeddiad gofodol y cam gweithredu.
3. A yw'r cam gweithredu yn gyson ag Egwyddorion Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig.
4. Pa mor ymarferol yw'r cam gweithredu.
5. Sut bydd rhoi'r cam gweithredu ar waith yn sicrhau gwerth am arian.

### Cyfradd Uchaf a Throthwy'r Grant

Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r holl grant yn ddomestig, a bydd y cyfanswm yn amrywio bob blwyddyn ariannol.

Yr uchafswm grant fydd £40,000 fesul cais. Bydd ceisiadau sy'n gofyn am dros £40,000 yn cael eu hystyried ond bydd angen iddynt ddangos gwerth am arian.

Caiff un ymgeisydd gyflwyno nifer o geisiadau am brosiectau amrywiol yn ystod yr un cyfnod ymgeisio neu 'alwad am gamau gweithredu'.

Uchafswm cyfradd y grant yw 100% ni waeth beth fo maint y sefydliad sy'n gwneud cais. Fodd bynnag, gellir ystyried arian cyfatebol gan yr ymgeisydd.

## Adran D: Gwneud cais am y Cynllun Grant ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig – Y Broses Ymgeisio

Bydd y broses ymgeisio yn cynnwys gwahoddiad i gyflwyno cais yn ystod cyfnod penodedig a elwir yn 'alwad am gamau gweithredu', sydd fel arfer yn cael ei chynnal yn Chwarter 4 blwyddyn galendr.

Fel arfer, bydd y cyfnod galw am gamau gweithredu yn para am wyth wythnos, a chynhelir gweithdy rhithwir yn ystod y cyfnod hwn i ddarparu cyngor ac arweiniad ar gyfer ymgeiswyr.

### Gwneud cais

Cyhoeddir yr alwad am gamau gweithredu drwy brif rwydweithiau Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol, a bydd y cais a'r canllawiau'n rhan o'r pecyn.

Os nad ydych wedi derbyn y pecyn ymgeisio cysylltwch â: **MarineEcosystemsAndBiodiversity@gov.wales**.

Mae'r cais yn cynnwys pum amcan y bydd angen i ymgeiswyr eu bodloni er mwyn cael eu hystyried ar gyfer grant posibl.

### Maen prawf 1 – Pa mor debygol yw hi y bydd y cam gweithredu yn gwella cyflwr y rhwydwaith neu'n gwella ein dealltwriaeth o bwysau/bygythiadau neu'r ffordd maent yn cael eu rheoli

Mae'r maen prawf hwn wedi'i rannu'n ddwy ran. Bydd unrhyw gamau gweithredu arfaethedig yn cael eu hasesu yn erbyn un o'r meini prawf hyn yn unig (sef naill ai 1a neu 1b):

- Os bydd eich prosiect yn mynd i'r afael ag un neu fwy o'r pwysau neu'r bygythiadau sy'n effeithio ar i un neu fwy o nodweddion ein Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig, yna bydd angen ichi asesu eich prosiect yn erbyn maen prawf 1a.

- Os bydd eich prosiect yn dangos yr angen i gael dealltwriaeth well o bwysau neu fygythiad penodol yna caiff y cam gweithredu ei asesu yn erbyn maen prawf 1b. Bydd maen prawf 1b hefyd yn cael ei ddefnyddio os yw'r cam gweithredu arfaethedig yn cynnwys yr angen am ddealltwriaeth well o ddull rheoli penodol, neu am dreialu'r dull hwnnw.

Nid ystyrir ceisiadau sy'n ceisio bodloni'r ddau faen prawf

Gellir defnyddio'r ddau faen prawf ar gyfer pwysau a bygythiadau, a diffinnir y rhain isod:

- Pwysau: rhywbeth sydd ar hyn o bryd yn cael effaith andwyol ar un neu fwy o nodweddion.
- Bygythiad: rhywbeth sydd ddim yn peri pwysau ar hyn o bryd ond ystyrir ei fod yn debygol o beri pwysau yn y dyfodol agos os na chymerir camau.

## Maen prawf 1a. Pa mor debygol yw hi y bydd y cam gweithredu'n sicrhau gwelliannau i gyflwr y nodwedd neu'n gwella'r ffordd mae'n cael ei chynnal a'i chadw?

Mae'r maen prawf hwn yn gysylltiedig â chamau a fydd yn arwain at wella'r ffordd mae'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael ei gynnal a'i gadw, neu at welliannau i'w nodweddion, fel arfer drwy reoli'r pwysau/ bygythiadau sy'n effeithio ar y nodwedd. Gellid cysylltu'r cam gweithredu hefyd â rheoli gweithgareddau sy'n cael effaith ar gyflwr nodwedd, neu ag adfer nodwedd.

Elfennau i'w hystyried: Byddwch yn glir ynghylch pa bwysau mae'r cam gweithredu'n eu targedu, pa nodweddion mae'r pwysau'n cael effaith arnynt, a sut mae'r pwysau'n cael effaith ar y nodweddion. Eglurwch yn union sut y bydd y cam gweithredu arfaethedig yn lliniaru'r pwysau a dargedir. Os oes modd, eglurwch pwy fydd yn cymryd rhan, a beth byddant yn ei wneud.

Enghreifftiau o gamau a fyddai'n cael eu hystyried o dan 1a:

- Cam gweithredu i ddatblygu strategaeth ar draws rhwydwaith i reoli'r pwysau ar nodwedd e.e. Strategaeth Cadwraeth Dolffiniaid a Llamhidyddion y DU.
- Cam gweithredu i leihau mewnbwn maethynnau sy'n cael effaith ar nodwedd arfordirol, a gynhelir fel prosiect peilot.
- Cam gweithredu i leihau effaith tarfu gan gychod (e.e. cod ymddygiad) ar nodwedd gyfan.

## Maen prawf 1b. Pa mor debygol yw hi y bydd y cam gweithredu'n sicrhau ein bod yn deall yn well y pwysau/bygythiadau neu'r ffordd maent yn cael eu rheoli?

Mae'r maen prawf hwn yn gysylltiedig â chamau a fydd yn arwain at wella ein dealltwriaeth o'r pwysau neu'r bygythiadau sy'n effeithio ar yr Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig, neu'n gwella ein dealltwriaeth o'r mesurau rheoli gwahanol y gellid eu defnyddio i fynd i'r afael â'r pwysau neu'r bygythiadau hyn.

Elfennau i'w hystyried: Mae'n bwysig bod yn glir ynghylch pa fwlch yn y ddealltwriaeth mae'r cam gweithredu arfaethedig yn ceisio mynd i'r afael ag ef. Ystyriwch y rheswm dros y bwlch a sut y bydd y cam gweithredu arfaethedig yn mynd i'r afael ag ef. Os ydych yn ystyried dull newydd o reoli (naill ai i'w archwilio neu ei dreialu) byddwch yn glir ynghylch yn union beth yw'r mesur rheoli a'r canlyniadau a fydd yn cael eu cyflawni, ac os oes modd lle mae'r dull wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus mewn mannau eraill.

Enghreifftiau o'r camau gweithredu a fyddai angen eu hystyried o dan 1b:

- Archwiliad i effaith gwasgfa arfordirol ar y Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig:
- Ymchwiliad i effaith sbwriel môr ar nodweddion ein Hardaloedd Morol Gwarchodedig.
- Treialu dull newydd ar gyfer rheoli palu am abwyd ar safle (os yw hefyd yn rhywbeth y gellid ei gyflwyno i safleoedd eraill).

## Maen prawf 2. Beth yw cyrhaeddiad gofodol y cam gweithredu?

Mae'r maen prawf hwn yn canolbwyntio ar faint o'r rhwydwaith mae'r cam gweithredu arfaethedig yn ei gynnwys. Bydd y sgoriau yn cael eu pennu ar sail pa mor helaeth yw effeithiau'r cam gweithredu ar y Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Mae hwn yn gynllun gweithredu ar gyfer y rhwydwaith cyfan, felly, po fwyaf yw ardal y rhwydwaith sy'n cael ei chynnwys, neu po uchaf yw nifer y nodweddion sy'n cael eu cynnwys (neu po fwyaf yw cyfran y nodweddion ar draws y rhwydwaith), po uchaf fydd y sgôr. Gellid rhoi sgôr trothwy o (2) pe gellid ystyried y cam gweithredu yn brosiect arddangos ar raddfa leol y gellid ei gyflwyno neu ei weithredu o fewn ardaloedd eraill y rhwydwaith.

**Elfennau i'w hystyried:** Mae'n bwysig dangos yn glir pa safleoedd a/neu nodweddion a fydd ar eu hennill o ganlyniad i'r cam gweithredu. Os mai prosiect arddangos yw'r cam gweithredu, mae'n bwysig tynnu sylw at safleoedd eraill a fyddai'n elwa yn y tymor hir ac, os oes modd, sut y gellid cyflwyno'r prosiect ar draws y rhwydwaith.

## Maen prawf 3: A yw'r cam gweithredu'n cyd-fynd ag Egwyddorion Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig?

Mae'r maen prawf hwn yn canolbwyntio ar i ba raddau mae'r cam gweithredu arfaethedig yn bodloni un neu fwy o bum egwyddor rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Bydd yn bosibl i'r camau gael eu sgorio yn erbyn unrhyw rai neu bob un o egwyddorion rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig ym Mlwch 1. Mae'n bosibl na fydd y cam gweithredu arfaethedig yn berthnasol i bob egwyddor rheoli, ac nid oes angen ceisio dangos bod cam gweithredu'n addas ar gyfer pob maen prawf. Mae canllawiau ar gyfer y rhai a fydd yn cyflawni camau gweithredu arfaethedig mewn llythrennau italig o dan pob egwyddor rheoli.

Os bydd cam gweithredu'n cael sgôr negyddol yn erbyn unrhyw egwyddor rheoli, ni ddylid ei ystyried ymhellach yn y broses flaenoriaethu nes bod y problemau hyn wedi cael eu datrys.

## Maen prawf 4. Pa mor ymarferol yw'r cam gweithredu?

Mae'r maen prawf hwn yn gysylltiedig â gallu'r unigolyn a fudd yn gyfrifol am gymryd y cam gweithredu arfaethedig i wneud hynny. O dan y maen prawf hwn mae'n bwysig ystyried yn union sut bydd y cam gweithredu hwn yn cael ei roi ar waith ac a yw'r dulliau sy'n cael eu cynnig wedi cael eu defnyddio'n llwyddiannus mewn mannau eraill.

**Elfennau i'w hystyried:** Mae'n bwysig ystyried ymarferoldeb technegol eich prosiect gan gynnwys y gallu ymarferol, y gallu logisteg a'r gallu technegol (gan gynnwys sgiliau ac arbenigedd) sydd eu hangen i gyflawni'r cam gweithredu. Ystyriwch pa mor briodol yw'r fethodoleg hon ar gyfer y safle neu'r cyd-destun.

## Maen prawf 5. Sut bydd rhoi'r camau gweithredu ar waith yn sicrhau gwerth am arian?

**Ni roddir** sgôr am eich ymateb i'r maen prawf hwn, ond mae'n rhaid ichi ystyried yn eich ateb pa mor gymesur yw'r gost, o ran maint y prosiect a'r manteision y bydd yn eu cyflawni. Er nad oes sgôr yn gysylltiedig â'r maen prawf hwn, mae'n parhau i fod yn bwysig ichi fod yn glir ynghylch sut y cafodd cost y prosiect ei datblygu a sut y bydd canlyniadau'r prosiect o fudd i'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

**Elfennau i'w hystyried:** Mae'n bwysig ystyried manteision eich prosiect mewn perthynas â chost y prosiect. Canolbwyntiwch ar ganlyniadau'r prosiect. Cynhwyswch y costau uniongyrchol, yn ogystal ag adnoddau eraill a fydd eu hangen i gyflawni'r cam gweithredu. Dylai canlyniadau disgwyliedig y prosiect gael eu cysylltu â gwelliannau i gyflwr neu ddealltwriaeth o nodweddion y rhwydwaith.

### Amodau'r grant

Nid oes sicrwydd y bydd y cynnig grant yn cael ei gymeradwyo. Bydd y broses werthuso'n cymryd hyd at 60 diwrnod gwaith ar ôl derbyn eich dogfennau. Ni fydd dogfennau ategol a gyflwynir fel rhan o'r cais yn cael eu hystyried.

Os bydd y gwerthusiad o'ch cais a'ch dogfennau arfaethedig yn llwyddiannus, cynigir contract ichi o dan y Cynllun Grant ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig drwy eich swyddog a enwir o Lywodraeth Cymru. Bydd angen ichi dderbyn y cynnig contract hwn, a bydd angen i unigolyn priodol o fewn eich sefydliad gwblhau a llofnodi'r contract gyda Llywodraeth Cymru.

Rhaid ichi beidio â dechrau gwaith nes eich bod wedi derbyn eich contract neu wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig i ddechrau. Os byddwch yn dechrau gwaith heb dderbyn caniatâd, mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn gwrthod y gwaith a wnaed neu ddiddymu'r contract ac adennill unrhyw daliadau a wnaed.

Bydd eich contract yn dechrau ar 1 Ebrill yn y flwyddyn a nodir ac yn dod i ben ar 31 Mawrth y flwyddyn ddilynol.

Os penderfynwch dynnu'n ôl neu wrthod y cynnig grant cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r contract, rhowch wybod i'ch swyddog enwir o Lywodraeth Cymru er mwyn trafod y mater.

Dylech fod yn ymwybodol, os byddwch yn llwyddiannus, fod Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i gyhoeddi enw eich busnes neu gwmni, swm y grant a ddyfarnwyd ichi a chrynodeb o'ch prosiect.

## Adran E: Talu'r Grant

Bydd yr ymgeisydd a Llywodraeth Cymru yn cytuno ar amserlenni ar gyfer talu'r grant, a gallant gynnwys naill ai un taliad neu nifer o daliadau interim. Bydd yr amserlen dalu yn cael ei chynnwys yn y contract a bydd gwahoddiadau i hawlio'n cael eu hanfon 30 diwrnod cyn y dyddiad hawlio.

Bydd angen i ymgeiswyr gyflwyno eu anfoneb a'r dystiolaeth y cytunwyd arni ymlaen llaw i gefnogi'r hawliad i'r swyddog a enwir o Lywodraeth Cymru yn y llythyr dyfarnu contract.

Bydd y taliad yn cael ei wneud drwy drosglwyddiad electronig i'ch cyfrif banc a bydd angen ichi gysylltu â'ch swyddog a enwir o Lywodraeth Cymru i sicrhau bod eich sefydliad wedi'i gofrestru'n gywir gyda Llywodraeth Cymru.

Rhaid anfon pob anfoneb heb ei thalu at eich swyddog a enwir o Lywodraeth Cymru erbyn 17 Mawrth yn y flwyddyn ddyfarnu er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei thalu erbyn 31 Mawrth.

Rhaid ichi sicrhau bod yr holl feini prawf gwerthuso wedi cael eu bodloni, gan gynnwys cyflwyno dogfennau ategol i'ch swyddog a enwir o Lywodraeth Cymru er mwyn i'r hawliad gael ei awdurdodi.

## Adran F: Monitro Prosiectau

Mae'n ofynnol bod cynnydd eich prosiect yn cael ei fonitro a bod ei lwyddiant yn cael ei werthuso ar ôl ei gwblhau. Gofynnir ichi ddarparu diweddariadau rheolaidd ar gynnydd eich prosiect ac adroddiad terfynol ar ei berfformiad ar ôl ei gwblhau, pan fydd y prosiect yn cael ei werthuso yn erbyn yr amcanion a'r targedau sydd yn y cais a gymeradwywyd.

Os bydd y prosiect yn methu â bodloni'r targedau hyn ac, ar sail y cynnydd a wnaed mewn gwirionedd, na fyddai wedi bod yn gymwys i gael cymorth grant o dan y cynllun, gall camau gael eu cymryd i adennill y grant sydd wedi cael ei dalu neu i atal taliadau grant pellach.

Byddwch chi a'ch swyddog a enwir o Lywodraeth Cymru yn trafod y meini prawf gwerthuso, a byddant yn cael eu nodi yn eich contract. Mae'r meini prawf gwerthuso yn amlinellu'r hyn y mae angen ei ddangos i sicrhau dilyniant a bod yn grant yn cael ei dalu.

### Diwedd y Cynllun Grant ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig

Rhaid i bob hawliad gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 17 Mawrth yn y flwyddyn benodedig. Rhaid cwblhau holl weithgareddau'r prosiect erbyn 31 Mawrth er mwyn i'r cyfrifon a'r cofnodion gael eu harchwilio a'r hawliadau gael eu paratoi a'u cyflwyno erbyn y dyddiad hwn.

## Adran G: Y Drefn Apelio

Os bydd cais yn cael ei wrthod, bydd y rhesymau dros hynny'n cael eu hegluro'n glir. Byddwn yn barod i drafod unrhyw addasiadau y gallai fod eu hangen i wneud y prosiect yn dderbyniol.

## Adran H: Hysbysiad preifatrwydd – grantiau Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata a roddwch mewn perthynas â'r cais am grant neu gyllid grant. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei phrosesu fel rhan o'n gorchwyl cyhoeddus (h.y. arfer ein hawdurdod swyddogol i gyflawni rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru) a bydd yn ein helpu i asesu a ydych yn gymwys i gael arian. Cyn rhoi cyllid grant ichi, byddwn yn cynnal archwiliadau at ddibenion atal twyll a gwyngalchu arian, ac i wirio pwy ydych chi. Mae'r archwiliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol inni rannu data personol amdanoch chi ag asiantaethau atal twyll trydydd parti. Os byddwn ni, neu asiantaeth atal twyll, yn penderfynu eich bod yn peri risg o dwyll neu wyngalchu arian, cawn wrthod darparu'r cyllid grant y gwnaethoch gais amdano, neu atal talu unrhyw gyllid grant presennol ichi. Bydd yr asiantaethau atal twyll yn cadw cofnod o unrhyw risg o dwyll neu wyngalchu arian, a gall hyn arwain at eraill yn gwrthod darparu gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth ichi.

Byddwn yn cadw gwybodaeth bersonol mewn ffeiliau yn unol â'n polisi cadw data. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, yna bydd eich data personol yn cael ei gadw am ddeng mlynedd o ddiwedd unrhyw ddyfarniad cymorth. Os byddwch yn aflwyddiannus, byddwn yn cadw eich manylion am flwyddyn ar ôl y gwnaethoch eu rhoi inni.

# Atodiad 1

Maen prawf 1a – Pa mor debygol yw hi y bydd y cam gweithredu'n sicrhau gwelliannau i gyflwr nodwedd neu'r ffordd mae'n cael ei rheoli: Tabl Sgorio

| Esboniad | Sgôr |
|---|---|
| Nid yw'r cam gweithredu wedi'i dargedu at bwysau neu fygythiad sy'n gysylltiedig â chyflwr nodwedd. | 0 |
| **Bygythiad*:** Bydd y cam gweithredu'n rheoli un neu fwy o'r bygythiadau y credir y gallent gael effaith ar gyflwr nodweddion y Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig. | 1 |
| **Pwysau:** Bydd y cam gweithredu'n rheoli un neu fwy o'r pwysau y gwyddys amdanynt sy'n cael effaith ar nodweddion y Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig.<br>**Bygythiad:** Bydd y cam gweithredu'n rheoli un neu fwy o'r bygythiadau a allai gael effaith ar gyflwr nodweddion y Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig. | 2 |
| **Pwysau:** Bydd y cam gweithredu'n rheoli un neu fwy o'r pwysau y gwyddys amdanynt sy'n cael effaith sylweddol ar gyflwr nodweddion y Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig, gan ddefnyddio dull sydd wedi'i brofi.<br>**Bygythiad:** Bydd y cam gweithredu'n rheoli un neu fwy o'r bygythiadau a allai gael effaith sylweddol ar nodweddion y Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig gan ddefnyddio dull sydd wedi'i brofi. | 3 |

* Nid oes sgôr o 1 am bwysau, gan y dylid gwybod eisoes am y pwysau er mwyn i'r cynllun gweithredu roi blaenoriaeth iddynt.

Maen prawf 1b – pa mor debygol yw hi y bydd y cam gweithredu'n gwella ein dealltwriaeth o'r pwysau/bygythiadau neu'r ffordd maent yn cael eu rheoli: Tabl Sgorio

| Esboniad | Sgôr |
|---|---|
| Ni fydd y cam gweithredu'n gwella ein dealltwriaeth o<br>a. pwysau neu fygythiadau; neu<br>b. y mesurau rheoli sydd eu hangen i fynd i'r afael â nhw. | 0 |
| **Bygythiad:** Bydd y cam gweithredu yn gwella'n rhannol ein dealltwriaeth o<br>a. un o'r bygythiadau a allai gael effaith ar gyflwr nodweddion y Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig; neu<br>b. y mesurau rheoli sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r bygythiad hwn. | 1 |
| **Pwysau:** Bydd y cam gweithredu'n cynyddu ein dealltwriaeth o<br>a. un neu ragor o'r pwysau a sut maent yn cael effaith ar gyflwr nodweddion y Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig; neu<br>b. y mesurau rheoli sydd eu hangen i reoli'r pwysau hynny.<br>**Bygythiad:** Bydd y cam gweithredu'n gwella ein dealltwriaeth o<br>a. un neu fwy o'r bygythiadau a allai gael effaith ar gyflwr nodweddion y Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig; neu<br>b. y mesurau rheoli sydd eu hangen i reoli'r bygythiadau hynny. | 2 (sgôr trothwy) |

| Esboniad | Sgôr |
|---|---|
| **Pwysau:** Bydd y cam gweithredu yn cynyddu'n sylweddol ein dealltwriaeth o<br>a. un neu ragor o'r pwysau a sut y maent yn effeithio ar gyflwr nodweddion y Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig; neu<br>b. y mesurau rheoli sydd eu hangen i reoli'r pwysau hynny.<br><br>**Bygythiad:** Bydd y cam gweithredu yn gwella'n sylweddol ein dealltwriaeth o<br>a. un neu ragor o'r bygythiadau a allai gael effaith sylweddol ar gyflwr nodweddion y Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig; neu<br>b. y mesurau rheoli sydd eu hangen i reoli'r bygythiadau hynny. | 3 |

Maen prawf 2 – Beth yw cyrhaeddiad gofodol y cam gweithredu hwn: Tabl Sgorio

| Esboniad | Sgôr |
|---|---|
| Mae'r cam gweithredu ar gyfer un safle yn unig ac ni fydd yn cael effaith ar draws y rhwydwaith*. | 0 |
| Mae'r cam gweithredu ar gyfer nifer fach o safleoedd neu gyfran fach o'r rhwydwaith. | 1 |
| Mae'r cam gweithredu ar gyfer:<br>• nifer o safleoedd, neu<br>• gyfran fawr o'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig, neu<br>• gyfran fawr o nodwedd ar draws y rhwydwaith.<br>Gellir dyfarnu sgôr o ddau hefyd os mai prosiect arddangos# yw'r cam gweithredu lle mae posibilrwydd cryf y bydd yn cael ei gyflwyno ar draws y rhwydwaith yn dilyn cam peilot lleol. | 2 (sgôr trothwy) |
| Mae'r cam gweithredu ar lefel y rhwydwaith gyfan (e.e. nodwedd neu bwysau sy'n cysylltiedig â'r rhwydwaith cyfan). | 3 |

*Dylid blaenoriaethu'r camau gweithredu hyn drwy gynlluniau gweithredu lleol lle maent yn bodoli, neu drwy Gronfa Ddata Camau Gweithredu Cyfoeth Naturiol Cymru.

#I ennill y sgôr trothwy hwn, mae'n rhaid i brosiect arddangos fynd i'r afael â mater sy'n peri pryder ar draws y rhwydwaith, ond bod yn addas i'w roi ar waith ar un safle i brofi'r dull.

Maen prawf 3 – A yw'r cam gweithredu'n gyson ag Egwyddorion Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig: Tabl Sgorio

| Esboniad | Sgôr |
|---|---|
| Mae anghysondebau rhwng y cam gweithredu a'r egwyddor rheoli. | -3 |
| Nid yw'r cam gweithredu yn berthnasol i'r egwyddor rheoli. | 0 |
| Mae'r cam gweithredu'n cyd-fynd yn rhannol â'r egwyddor rheoli. | 1 |
| Mae'r cam gweithredu yn cyd-fynd â'r egwyddor rheoli. | 2* |
| Mae'r cam gweithredu yn cyd-fynd â'r egwyddor rheoli a bydd hefyd yn dod â newid positif i ffyrdd o weithio. | 3 |

*Sgôr trothwy – mae angen sgôr o ddau yn erbyn o leiaf un egwyddor rheoli

Maen prawf 4 – Pa mor ymarferol yw'r gweithredu: Tabl Sgorio

| Esboniad | Sgôr |
|---|---|
| Ni fyddai'r cam gweithredu'n dechnegol ymarferol, hyd yn oed pe bai'r adnoddau ar gael. | 0 |
| Nid yw ymarferoldeb y cam gweithredu wedi ei brofi ar hyn o bryd / mae problemau ynghylch pa mor briodol yw'r fethodoleg. | 1 |
| Nid oes problemau mawr o ran ymarferoldeb technegol / pa mor briodol yw'r fethodoleg. | 2 |
| Mae ymarferoldeb technegol wedi'i brofi. | 3 |

# Atodiad 2

**Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPA) – Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru: 2022–2023**